# Llawlyfr ar gyfer cynllluniwr y prosiect digideiddio

Cynhyrchwyd gan Mathilde Pavis, Andrea Wallace a Sarah Saunders ar gyfer Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol



Heritage Fund | glam-e lab

# Cynlluniwr y Prosiect Digideiddio

## Dalen 1. Ble ydym ni nawr?

*Bwriedir i'r adnodd hwn gael ei argraffu yn ôl maint A4. Mae fersiwn A3 ar gael i'w lawrlwytho.*

### Syniad

*Disgrifiwch syniad eich prosiect mewn 180 nod neu lai*

Pam rydym ni am wneud y prosiect hwn?
Beth sy'n gyffrous am ein prosiect?
Sut beth fydd ein canlyniad yn y pen draw?
Beth yw ein huchelgais fwyaf ar gyfer y deunyddiau?
A ydym ni wedi edrych ar brosiectau tebyg?

### Prosiect

Beth rydym am ei wneud a phryd?
Am ba hyd fydd y prosiect yn para? A yw'n mynd yn ei flaen nawr?
Pwy yw'r rhanddeiliaid ac a ydynt yn rhannu ein gweledigaeth?
Pam mai ni sydd yn y sefyllfa orau i gyflawni'r prosiect hwn?

### Deunyddiau

Pa ddeunyddiau ydym ni'n eu digideiddio?
Faint o eitemau? A pha fath?
Beth yw lleoliad y deunyddiau?
Pwy sy'n berchen arnyn nhw? A ellir mynd atyn nhw am ddim?
A oes pryderon am ddiogelu, adfer, cadwraeth neu sensitifrwydd?
A oes gennym neu a oes angen caniatâd arnom i ddigideiddio'r deunyddiau?
Sut byddwn yn rhannu ein deunyddiau?

### Deunyddiau

| | |
|---|---|
| ______________ | Rheoli'r prosiect |
| ______________ | Technegol (offer) |
| ______________ | Technegol (meddalwedd) |
| ______________ | Catalogio |
| ______________ | Mewnbynnu a rheoli data |
| ______________ | Archifo |
| ______________ | Gwefan |
| ______________ | Platfform cyhoeddi |
| ______________ | Cyhoeddusrwydd ac ymgysylltu |
| ______________ | Sgiliau eraill |

### Tîm

Pwy sy'n arwain tîm y prosiect?
Pwy y mae eu hangen arnom i gyflawni'r prosiect?
A ydynt yn wirfoddolwyr neu'n staff? Beth fydd eu rôl?
A fyddant yn cael eu digolledu?
Faint o amser sydd ganddynt?
A oes angen mwy o bobl neu bartneriaid prosiect arnom?
A fydd angen cyllid arnynt neu a fyddant yn dod â chyllid gyda nhw?

### Cynulleidfaoedd a defnyddwyr

Who or what groups will benefit from our project?
How will we promote inclusion and involve a wider range of people?
How will people access our collections? On what devices?
How can we meet access and reuse needs (eg, disability access)?

### Cyllid presennol

*Gweler 'Cyllideb' ar Ddalen 2*

A oes gennym y cyllid yn barod? A allwn gyflawni'r prosiect o fewn y swm hwn??
A oes angen help arbenigol arnom?
A oes angen i ni wneud cais am gyllid?
Beth allwn ni ei wneud heb gyllid ychwanegol?
A oes gennym sefydliadau partner a all helpu gydag adnoddau?
A fydd ein sefydliad yn gwneud unrhyw gyfraniadau arian neu gyfraniadau o fath arall at y prosiect?

*'Cynlluniwr y Prosiect Digideiddio' (2023) gan Mathilde Pavis, Andrea Wallace a Sarah Saunders ar gyfer Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, CC BY 4.0.*

# Cynlluniwr y Prosiect Digideiddio

## Dalen 2. Beth mae ei angen arnom?

*Bwriedir i'r adnodd hwn gael ei argraffu yn ôl maint A4. Mae fersiwn A3 ar gael i'w lawrlwytho.*

### Caniatâd

A oes angen caniatâd arnom gan ein sefydliad i wneud y prosiect a/neu ddigideiddio'r deunyddiau?
A oes angen i ni glirio hawliau yn y deunyddiau cyn eu digideiddio? (Perchnogion, rhoddwyr, hawlfraint ac ati)
A yw ein prosiect yn cynnwys deunyddiau sensitif, plant neu bobl ifanc o dan 18 oed? Os ydyw, a oes angen caniatâd ychwanegol arnom?

### Digideiddio

Sut byddwn yn digideiddio?
Pa offer sydd ei angen arnom? (sganwyr, camerâu, goleuadau ffotograffiaeth, dyfeisiau recordio sain)
Pwy fydd yn digideiddio'r deunyddiau?
Pa safonau, fformatau a chydraniad fyddwn ni'n eu defnyddio?
Pa feddalwedd sydd ei hangen arnom? (system rheoli casgliadau, meddalwedd golygu)

### Amserlen

Pryd bydd ein prosiect yn dechrau ac yn gorffen?
A allwn drefnu'r gwaith yn gamau?
A ydym ni wedi neilltuo amser i weithgareddau fel ymchwil, recriwtio, caffael, hyfforddi, clirio hawliau a chatalogio?
Faint o amser fydd ei angen arnom ar gyfer y gweithgareddau hyn?
A fyddwn ni'n cynnal unrhyw weithgareddau neu weithdai ac, os felly, pryd?

### Rheoli data

Pa ddata sy'n gysylltiedig â'r eitemau?
A yw'n cynnwys data personol sy'n gofyn am reolaeth ychwanegol?
Sut byddwn yn catalogio'r deunyddiau digidol?
Pa safonau metadata byddwn ni'n eu dilyn?
Sut byddwn ni'n cyfleu unrhyw hawliau yn y deunyddiau? (e.e. labeli Creative Commons neu RightsStatements.org yn y metadata)
A oes angen i ni ddiweddaru ein polisïau ar reoli data a hawliau?
Ble byddwn ni'n cadw copïau wrth gefn o'r deunyddiau digidol neu'n eu hadneuo?

### Cyhoeddi ac ymgysylltu

Sut byddwn ni'n rhyddhau ein deunyddiau digidol? (ein gwefan ein hun, Wikimedia Commons, Flickr Pro, GitHub, archifau ar-lein arbenigol neu archifau ar-lein presennol)
Sut byddwn ni'n cynnal y deunyddiau digidol ar ôl eu cyhoeddi?
Pa sianeli byddwn ni'n eu defnyddio i gyrraedd pobl? (y cyfryngau cymdeithasol, cylchlythyron, gweithdai)

### Cyllideb

| | |
|---|---|
| ____________ | Staff a recriwtio |
| ____________ | Gwasanaethau trwy gontract allanol |
| ____________ | Hyfforddiant |
| ____________ | Teithio a threuliau |
| ____________ | Costau digwyddiad |
| ____________ | Cyhoeddusrwydd a hyrwyddo |
| ____________ | Offer a meddalwedd |
| ____________ | Tanysgrifiadau storio data a cwmwl a |
| ____________ | Costau gwefan a chynnal a chadw parhaus |
| ____________ | Cyfraniadau arian |
| ____________ | Cyfraniadau nad ydynt yn arian |
| ____________ | Costau eraill a cyllid wrth gefn |

### Anghenion

Pa waith fyddwn ni'n ei wneud yn fewnol a beth fyddwn ni'n ei drefnu trwy gontract allanol?
A oes unrhyw beth arall y mae angen i ni ei ystyried?

### Cyllid

At ba bwrpas mae'r cyllid?
Pa gyllidwyr sy'n cefnogi'r math hwn o waith?
Sut mae ein gwerthoedd yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r cyllidwr?
Faint o gyllid sydd ei angen arnon ni?
Beth yw proses ymgeisio ac amserlen y cyllidwr?

*'Cynlluniwr y Prosiect Digideiddio' (2023) gan Mathilde Pavis, Andrea Wallace a Sarah Saunders ar gyfer Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, CC BY 4.0.*

# Llawlyfr

## ar gyfer cynlluniwr y prosiect digideiddio



## Beth yw cynlluniwr y prosiect digideiddio?



Mae'r canllaw hwn yn cyd-fynd â chynlluniwr y prosiect digideiddio.

Defnyddiwch y nodiadau hyn wrth i chi weithio drwy adrannau'r fersiwn papur neu electronig o'r cynlluniwr i'ch helpu i:

- ddiffinio nodau eich prosiect
- asesu pa adnoddau sydd ar gael gennych
- nodi cwmpas eich prosiect a chreu cyllideb
- creu cynllun i ddod o hyd i'r adnoddau y mae eu hangen arnoch
- dadlau achos busnes neu baratoi cais am gyllid

Bydd y cynlluniwr yn eich tywys drwy'r camau y mae eu hangen arnoch i droi eich syniad digideiddio yn gynllun diffiniedig. Gellir ei ddefnyddio ar gyfer prosiectau o bob maint.

Gallwch ddefnyddio'r cynlluniwr i daflu syniadau yn unigol neu fel grŵp. Ni ddylai Dalen 1 gymryd mwy na 2 awr i'w llenwi. Efallai bydd angen ymchwil a thaflu syniadau ychwanegol dros gyfnod hwy ar Ddalen 2. Hefyd, cewch enghreifftiau o'r cynlluniwr wedi'u cwblhau ar ddiwedd y llawlyfr hwn.




**↘ Bwriedir i'r cynlluniwr, y llawlyfr a'r enghreifftiau gael eu hargraffu yn ôl maint A4. Gallwch lawrlwytho fersiwn fwy o'r cynlluniwr i'w argraffu yn ôl maint A3. Neu, gallwch ei lenwi ar-lein gan ddefnyddio Google Sheets neu lawrlwytho fersiwn i'w llenwi gan ddefnyddio Microsoft Excel.**

# Sut i ddefnyddio cynlluniwr y prosiect digideiddio


**Bydd y meysydd yn y cynlluniwr yn gofyn i chi fod yn benodol yn eich atebion i'r rhestr o gwestiynau a ddarperir.**

## Dalen 1. Ble ydym ni nawr?




Mae'r ddalen hon yn eich helpu i amlinellu **gweledigaeth eich prosiect** ac adolygu'r **adnoddau** sydd gennych yn barod. Ar ôl ei gwblhau, byddwch yn barod i gynllunio'r prosiect yn fanylach ac yn nodi'r hyn y bydd ei angen arnoch.

## Dalen 2. Beth mae ei angen arnom?




Mae'r ddalen hon yn eich helpu i fapio'r broses **ddigideiddio** a phennu'r **adnoddau** y bydd eu hangen arnoch i fwrw ymlaen. Adolygwch eich atebion o'r ddwy ddalen i lunio rhestr o bwyntiau **gweithredu** a chamau nesaf.

# Dalen 1. Ble ydych chi nawr?

## Gweledigaeth

**Eich gweledigaeth ar gyfer y prosiect yw'r sylfaen a ddylai lywio pob agwedd ar y gwaith a cheisiadau am gyllid yn y dyfodol. Bydd cael gweledigaeth glir i'ch prosiect yn arbed amser ac arian i chi yn nes ymlaen.**





### Syniad

Disgrifiwch eich prosiect yn y maes hwn. Yn syml, pam rydych chi am wneud y prosiect hwn?

### Prosiect

Disgrifiwch nodweddion craidd eich prosiect digideiddio. Rhestrwch unrhyw gynnwys neu weithgareddau y bydd eich prosiect yn eu creu, fel copïau digidol, gwefannau, digwyddiadau neu becynnau cymorth. Beth rydych chi am ei wneud a phryd?

### Deunyddiau

Yn y maes hwn, disgrifiwch y casgliadau yr hoffech eu digideiddio a/neu eu cyhoeddi. Pa ddeunyddiau ydych chi'n eu digideiddio a phryd?

**↘ Bydd eich atebion yn llywio'r broses ddigideiddio a chostau'r prosiect. Er enghraifft, os bydd angen i chi deithio i wahanol leoliadau, rhaid i chi gynnwys costau ac amser teithio yn eich cynllun. Efallai bydd angen i chi brynu offer digideiddio cludadwy hefyd. I'r gwrthwyneb, os ydych chi'n gweithio gyda phartner digideiddio allanol, ystyriwch ymhle mae'r deunyddiau a sut bydd eich partner yn cael atynt i'w digideiddio.**

### Tîm

Yn y maes hwn, rhestrwch y bobl a'r partneriaid a fydd yn gweithio gyda chi ar y prosiect. Pwy fydd eu hangen arnoch chi yn eich tîm?

**↘ Disgrifiwch y bobl yn eich tîm mor fanwl â phosibl. Ai staff presennol ydyn nhw? Partneriaid newydd? Gwirfoddolwyr? Y cyhoedd? Bydd y maes hwn yn eich helpu i nodi pa adnoddau y bydd eu hangen arnoch i gefnogi eich prosiect. Efallai bydd angen llythyr o gefnogaeth ar gyfer unrhyw gyfraniadau sylweddol at y prosiect.**



### Cynulleidfaoedd a defnyddwyr

Defnyddiwch y maes hwn i nodi eich cynulleidfaoedd a'ch grwpiau defnyddwyr? Pwy fydd yn elwa o'r prosiect? Sut byddwch chi'n sicrhau eu bod yn gallu cael at y deunyddiau wedi'u digideiddio?

Meddyliwch am grwpiau penodol ymhlith y cyhoedd. Meddyliwch am:

- y gymuned leol
- cymunedau o ddiddordeb
- pobl o ardal ddaearyddol neu'n gysylltiedig ag ardal ddaearyddol
- plant ac ysgolion
- ymchwilwyr
- y cyfryngau

## Nodiadau

# Dalen 1. Ble ydych chi nawr?

## Adnoddau

Bydd angen aelodau tîm, gwirfoddolwyr, partneriaid neu gontractwyr arnoch i helpu gyda'r meysydd canlynol. Neu, efallai y bydd angen i chi ailfeddwl cwmpas eich prosiect neu ei rannu yn ôl y rhannau gwahanol hyn o'r broses ddigideiddio.



### Sgiliau

Rhestrwch y sgiliau sydd gennych yn eich tîm yn barod, neu yn eich rhwydwaith ehangach o bartneriaid, i gynorthwyo â chyflawni eich prosiect.

A all aelodau'r tîm neu bartneriaid helpu gyda:

- rheoli'r prosiect
- clirio hawliau a chaniatâd
- offer technegol a digideiddio
- meddalwedd a golygu
- catalogio
- mewnbynnu a rheoli data
- archifo
- gwefannau
- platfform cyhoeddi
- cyhoeddusrwydd ac ymgysylltu

### Cyllid presennol

Adolygwch y cyllid presennol y gallwch ei neilltuo i'ch prosiect. Cynhwyswch y cyfraniadau y gall partneriaid eich prosiect eu gwneud i'ch prosiect.

A oes gennych y cyllid yn barod, a beth allwch chi ei wneud heb gyllid?





↘ Gall fod digon o adnoddau gennych i beilota eich syniad trwy ddigideiddio detholiad o ddeunyddiau. Mae dechrau'n fach ac uwchraddio yn nes ymlaen yn syniad da. Byddwch yn ennill profiad a gwybodaeth yn ystod y peilot a fydd yn eich helpu i arbed amser a chostau mewn fersiynau o'ch prosiect yn y dyfodol.

## Nodiadau

# Dalen 2: Beth mae ei angen arnom?

## Proses

**Mae eich strategaeth ddigideiddio yn ganolog i'ch prosiect. Bydd y penderfyniad a wnewch ym mhob cam o'r broses ddigideiddio yn llywio eich amserlen a'ch cyllideb.**

**Efallai na fydd gennych yr holl atebion i'r cwestiynau yn y cynlluniwr hwn, ac nid oes unrhyw beth o'i le ar hynny. Cofnodwch y cwestiwn yn y categori 'Anghenion' isod a gallwch fynd yn ôl ato maes o law.**



### Caniatâd

Defnyddiwch y maes hwn i nodi pob caniatâd y gall fod ei angen arnoch yng ngwahanol gamau'r prosiect. Dylid cael rhai cyn cyflwyno'r cais am gyllid. Bydd eraill yn codi yn ystod y prosiect a gallant lywio amserlen a chyllideb eich prosiect.

Hefyd, ystyriwch a yw cyhoeddi deunyddiau'r prosiect ar-lein neu ddefnyddio trwyddedau agored yn briodol. Er enghraifft, gall y deunyddiau fod yn sensitif yn ddiwylliannol neu gall trydydd parti fod yn berchen ar hawliau ynddynt.

> ↘ Edrychwch ar ganllawiau Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ar drwyddedu agored, GDPR a hawlfraint.

### Digideiddio

Defnyddiwch y maes hwn i ddisgrifio sut byddwch yn digideiddio'r deunyddiau (delweddau, recordiadau sain, gwrthrychau 3D ac ati). Nodwch bwy fydd yn cyflawni'r digideiddio, unrhyw offer neu dechnoleg ofynnol, a'r ansawdd neu'r fformatau y bydd eu hangen.

> ↘ Meddyliwch am eich defnyddwyr wrth ddewis safonau, fformatau a chydraniad delweddau. Er enghraifft, pa gydraniad delweddau fydd yn eu helpu i wneud y mwyaf o'ch casgliadau digidol?

### Rheoli data

Llenwch y maes hwn gyda'ch cynlluniau rheoli data. Mae digideiddio'n cynhyrchu amrywiaeth o ddeunyddiau newydd, fel asedau digidol, metadata, setiau data, llifoedd gwaith ac allbynnau eraill prosiect. Gall gwahanol ddata alw am wahanol ddulliau o reoli, storio a chyhoeddi data.

Os yw eich prosiect yn cynnwys data personol, bydd angen cynllun ar wahân arnoch ar gyfer storio data a rheoli hawliau.

Ystyried: Pa wybodaeth ddylai gael ei chynnwys yn eich metadata? Pa wybodaeth fydd yn helpu defnyddwyr i wneud y mwyaf o'ch casgliadau digidol? Os bydd angen cyllid ychwanegol, a ydych chi wedi darllen gofynion trwyddedu'r cyllidwr ar gyfer allbynnau'r prosiect? Ble byddwch chi'n storio'ch data?

### Cyhoeddi ac Ymgysylltu

Defnyddiwch y maes hwn i ddisgrifio ble a sut y byddwch chi'n cyhoeddi allbynnau eich prosiect, fel delweddau, sain, fideo, unrhyw setiau data, pecynnau cymorth neu allbynnau eraill. Gallwch hyd yn oed gyhoeddi'r deunyddiau ar fwy nag un platfform i wella cyrhaeddiad y prosiect, fel Wikimedia Commons a Flickr. Hefyd, ystyriwch sut byddwch yn rhannu'r wybodaeth hon gyda'r cyhoedd, trwy ddatganiadau i'r wasg, y cyfryngau cymdeithasol neu ddigwyddiadau cyhoeddus.

> ↘ Gwiriwch a oes gan y cyllidwr unrhyw ofynion cyhoeddi. Er enghraifft, mae Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn gofyn bod allbynnau pob prosiect ar gael i'r cyhoedd am rhwng 5 ac 20 mlynedd. Gallai gwybod hyn lywio pa blatfformau byddwch chi'n eu defnyddio.



# Dalen 2: Beth mae ei angen arnom?

## Adnoddau

**Dylai eich adnoddau (amser ac arian) gefnogi syniad eich prosiect a'ch cynllun digideiddio. Gwnewch yn siŵr bod eich amserlen a'ch cyllideb yn ymateb i'r pwyntiau a nodoch yn y meysydd Gweledigaeth a Phroses.**



### Amserlen

Nawr bod gennych gynllun prosiect cychwynnol, gallwch amcangyfrif amserlen resymol i'r prosiect. Rhannwch eich prosiect yn gyfnodau gwaith gyda cherrig milltir, dyddiadau dechrau a dyddiadau gorffen penodol.

Bydd angen i chi amcangyfrif faint o amser y bydd holl feysydd y gwaith digideiddio yn ei gymryd. Os ydych chi'n cael trafferth â hyn, gofynnwch am farn arbenigwr a/neu cynhaliwch brosiect peilot bach. Dechreuwch trwy ofyn faint sydd i'w wneud ym mhob maes gwaith:

- ymchwil a chwmpasu
- archwiliad
- digideiddio
- caffael caledwedd a meddalwedd
- hyfforddiant
- catalogio a rheoli data
- digwyddiadau a gweithdai
- cyflwyno terfynoly

### Cyllideb

Bydd angen i chi amcangyfrif y costau ar gyfer treuliau allweddol. Defnyddiwch y rhestr wirio i eitemeiddio costau eich prosiect, ynghyd ag unrhyw gyfraniadau arian neu gyfraniadau nad ydynt yn arian gan eich sefydliad neu gan bartneriaid eich prosiect. Gall fod angen i chi wneud mwy o ymchwil neu ofyn i gyflenwyr am ddyfynbrisiau i fod yn fwy sicr eich costau.

**↘ Mae cyfraniadau arian yn cyfeirio at arian y mae eich sefydliad neu bartner y prosiect yn ei ddarparu i'r prosiect. Mae cyfraniadau nad ydynt yn arian yn cynnwys pob math arall o gefnogaeth i'r prosiect, fel offer, amser staff, arbenigedd, hurio lleoliad. Gallech hefyd gynnwys cost wrth gefn sydd rhwng 5 a 10% o gyfanswm y gyllideb.**




### Rhestr wirio o gostau

- ☐ Staff a recriwtio
- ☐ Gwasanaethau trwy gontract allanol
- ☐ Hyfforddiant
- ☐ Teithio a threuliau
- ☐ Costau digwyddiad
- ☐ Cyhoeddusrwydd a hyrwyddo
- ☐ Offer
- ☐ Meddalwedd
- ☐ Tanysgrifiadau storio data, cwmwl neu danysgrifiadau eraill
- ☐ Ffioedd gwasanaeth archifo
- ☐ Ffioedd gwasanaeth ar gyfer archifau a deunyddiau rydych chi'n eu cynnal eich hun
- ☐ Costau gwefan a chynnal a chadw parhaus
- ☐ Gwirio hygyrchedd
- ☐ Cyllid wrth gefn
- ☐ Cyfraniadau arian
- ☐ Cyfraniadau nad ydynt yn arian

# Dalen 2: Beth mae ei angen arnom?

## Gweithredu

Nawr bod Cynlluniwr eich Prosiect Digideiddio bron yn gyflawn, gallwch asesu beth fydd ei angen arnoch i gyflawni'r prosiect a phennu a fydd angen cyllid allanol ychwanegol arnoch.





### Anghenion

Defnyddiwch y maes hwn i restru unrhyw sgiliau, contractau, offer neu dechnoleg arall y bydd eu hangen arnoch i gyflawni'r prosiect.

↘ Gall y maes hwn gael ei ddefnyddio hefyd i ddatrys rhai o'r cwestiynau heb eu hateb a nodoch. Gall amserlen neu gyllideb y prosiect effeithio ar rai anghenion.

### Cyllid

Os bydd angen cyllid ychwanegol arnoch i fwrw ymlaen â'ch prosiect, lluniwch gynllun gweithredu ar gyfer ysgrifennu eich cynnig. Bydd hyn yn eich helpu i ysgrifennu achos busnes ar gyfer eich sefydliad i ariannu'r prosiect.

Os bydd angen cyllid allanol arnoch, nodwch gyllidwyr addas trwy wirio bod eich prosiect yn cyd-fynd yn dda ag unrhyw flaenoriaethau a gofynion sydd ganddynt. Er enghraifft, adolygwch ganllawiau Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ar gyllid a blaenoriaethau.

↘ Gwiriwch ddyddiadau cau'r cyllidwyr a neilltuwch bwyntiau gweithredu i'ch tîm er mwyn datblygu eich cais am gyllid. Cytunwch ar eich dyddiad cyflwyno delfrydol a gweithio yn ôl i osod terfynau amser ar gyfer llunio rhannau allweddol o'r cynnig, fel y drafft cyntaf o'r cynnig, y gyllideb, casglu llythyron o gefnogaeth gan bartneriaid ac ati.

### Un cyffyrddiad olaf...

Gan fod gan eich gweledigaeth gynllun manwl erbyn hyn, rhowch enw i'ch prosiect er mwyn rhoi sglein arno!

## Nodiadau

# Enghraifft A. Royal Albert Memorial Museum

## Dalen 1. Ble ydym ni nawr?

Heritage Fund | glam-e lab

### Syniad

Mae'r Royal Albert Memorial Museum and Art Gallery yn gweithio gyda The GLAM-E Lab ym Mhrifysgolion Caerwysg a Reading ar brosiect peilot i archwilio potensial mynediad agored yn yr amgueddfa. I fabwysiadu mynediad agored, bydd angen cymeradwyaeth arnom gan gorff llywodraethu'r amgueddfa. Er mwyn darparu gwybodaeth i helpu newid y polisi hwn, rydym yn cynnal treial. Ein syniad yw digideiddio paentiadau, lluniadau a darnau gwaith graffig eraill o safleoedd hanesyddol yng nghyffiniau Caerwysg sydd mewn casgliadau dan ofal yr amgueddfa ac nad ydynt o dan hawlfraint. Mae'r bensaernïaeth a'r tirweddau sy'n cael eu darlunio yn y darnau gwaith hyn wedi newid yn sylweddol gydag amser, yn enwedig oherwydd y Blitz ar Gaerwysg yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Nid yw llawer ohonynt yn bodoli mwyach. Felly, mae'r gwaith celf yn adnoddau ac yn gofnodion hanesyddol pwysig. Rydym am i bobl allu'u defnyddio'n rhydd oherwydd y rhain yw rhai o'r unig ddelweddau sydd wedi goroesi, ond rydym am i bobl ein synnu ni hefyd yn y ffordd maen nhw'n eu defnyddio a'u hailgymysgu. Bwriadwn ddefnyddio'r gyfres hon o ddelweddau i archwilio mynediad agored a'i fuddion i weddill y casgliad, ar y cyd â phartner ein prosiect.

### Prosiect

Byddwn yn tynnu ffotograffau o ddarnau gwaith celf yn y Royal Albert Memorial Museum and Art Gallery yng Nghaerwysg ac yn eu rhyddhau ar-lein trwy blatfformau Wikimedia, yn benodol, Wikimedia Commons a Wikipedia. Bydd y prosiect yn para dwy flynedd. Bydd ein prosiect yn cynhyrchu pum allbwn allweddol: (1) Casgliad digidol o 63 gwaith celf cyhoeddus, a fydd yn cael eu lanlwytho i Wikimedia Commons (nodir rhagor yn ddiweddarach yn y prosiect); (2) Tudalen prosiect Meta-Wiki i helpu defnyddwyr i ddod o hyd i'r casgliadau digidol a chyfrannu at erthyglau am dreftadaeth a gollwyd yn ystod y Blitz ar Gaerwysg; (3) Golyg-a-thon Wikipedia gyda haneswyr lleol a golygyddion Wikipedia i gyfrannu erthyglau a chyfraniadau newydd yn dorfol; (4) Set ddata newydd o ddelweddau gyda data a gwybodaeth newydd sy'n cael eu dal gan y Royal Albert Memorial Museum a gyhoeddir ar GitHub i addysgwyr eu defnyddio; ac (5) Adroddiad mynediad agored ar brofiad ac effaith y gweithgareddau ar ôl blwyddyn.

### Deunyddiau

- 63 gwaith celf cyhoeddus o'r Royal Albert Memorial Museum yng Nghaerwysg
- Deunyddiau eraill a nodir yn ddiweddarach
- Mae pob darn o waith celf yn cael eu dal mewn ymddiriedolaeth gan y Royal Albert Memorial Museum
- Mae angen cymorth staff arnom i hwyluso gweithgareddau digideiddio
- Mae angen cymorth Wikimedia UK arnom â'u platfformau a'u nodweddion
- Mae pob rheolwr casgliadau wedi cymeradwyo'r prosiect

### Sgiliau

| | |
|---|---|
| Cynorthwyydd ymchwil | Rheoli'r prosiect |
| Ffotograffwr allanol | Technegol (offer) |
| Ffotograffwr allanol | Technegol (meddalwedd) |
| Curadur cynorthwyol | Catalogio |
| Curadur cynorthwyol a diweddarwr Wikipedia preswyl | Mewnbynnu a rheoli data |
| Wikimedia Commons | Archifo |
| Tîm Cyfathrebu | Gwefan |
| Wikimedia Commons | Platfform cyhoeddi |
| Tîm Cyfathrebu | Cyhoeddusrwydd ac ymgysylltu |
| Cymorth mynediad agored: The GLAM-E Lab | Sgiliau eraill |

### Tîm

Bydd y Royal Albert Memorial Museum a The GLAM-E Lab yn arwain y prosiect. Cefnogir y prosiect yn bennaf gan Gynorthwyydd Ymchwil a ffotograffwr digideiddio'r amgueddfa. Bydd ymchwilwyr GLAM-E yn arwain y gwaith ar glirio hawliau a mynediad agored. Bydd dau aelod o staff yr amgueddfa yn cefnogi gweithgareddau'r prosiect: y Pennaeth Casgliadau a'r Swyddog Casgliadau. Bydd ein tîm yn gweithio'n uniongyrchol gyda phartner arall y prosiect Connected Heritage at Wikimedia UK trwy ddiweddarwr Wikipedia preswyl.

### Cynulleidfaoedd a defnyddwyr

Bydd unrhyw un sydd â diddordeb yng nghelfyddydau a hanes ardal Dyfnaint yn elwa o'n prosiect. Gallai'r bobl hyn gynnwys haneswyr, curaduron, ymchwilwyr, athrawon, creawdwyr, cymunedau lleol neu unrhyw un sy'n gweithio mewn twristiaeth leol.

### Cyllid presennol

Mae ein partneriaeth wedi cael rhywfaint o gyllid gan brosiect arall.

Mae angen cyllid arnom i dalu costau unrhyw ddigideiddio newydd. Mae angen cyllid ychwanegol arnom ar gyfer:

- Cymorth Wikimedia a'r diweddarwr Wikipedia preswyl
- Cydnabyddiaeth i wirfoddolwyr
- Costau digwyddiadau

*'Cynlluniwr y Prosiect Digideiddio' (2023) gan Mathilde Pavis, Andrea Wallace a Sarah Saunders ar gyfer Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, CC BY 4.0.*

# Enghraifft A. Royal Albert Memorial Museum

## Dalen 2. Beth mae ei angen arnom?

### Caniatâd

Mae pob darn o waith celf yn cael eu dal mewn ymddiriedolaeth gan y Royal Albert Memorial Museum. Byddwn ond yn gweithio gyda gwaith celf yn y parth cyhoeddus. Mae hyn yn golygu bod pob hawlfraint yn y gwaith celf wedi dod i ben. Yn unol â hynny, nid oes angen cael unrhyw ganiatâd i ddigideiddio. Mae hyn yn golygu y gallwn fodloni gofyniad y cyllidwr i gyhoeddi'r delweddau o dan CC0.

### Digideiddio

Bydd yr holl ddigideiddio yn digwydd ar safle'r Royal Albert Memorial Museum gan ddefnyddio'u cyfleusterau. Bydd y ffotograffwr allanol yn digideiddio'r gwaith gan ddefnyddio camera DSLR. Bydd y ffeiliau crai yn cael eu trosi i TIFF a JPEG. Byddwn yn penderfynu ar y cydraniad gorau i'w ddefnyddio ar gyfer y delweddau. Bydd y ddau fformat yn cael eu llwytho i Wikimedia Commons.

### Amserlen

- Cam 1: dechrau'r prosiect, gweinyddu a pharatoi data (12 mis)
- Cam 2: digideiddio a chyhoeddi (6 mis)
- Cam 3: gweithgareddau cyhoeddus, hysbysebu a golyg-a-thonau (6 mis, dros gyfnod y prosiect)

Cynhelir gweithdai ar ddiwedd blwyddyn 1 a blwyddyn 2

### Rheoli data

Bydd pob delwedd ddigidol yn cynnwys metadata disgrifiadol, fel yr Artist, Teitl, Math o Wrthrych, Disgrifiad, y Lle sy'n cael ei ddarlunio, Dyddiad, Cyfrwng, Dimensiynau, Rhif Derbyn a gwybodaeth arall. Rydym yn defnyddio templedi Excel a luniwyd ar gyfer llwytho i Wikimedia Commons er mwyn rheoli ein metadata. Yn ogystal â llwytho'r data i Wikimedia Commons a GitHub, byddwn yn cadw data wrth gefn gan ddefnyddio'r "rheol 3-2-1". Mae hyn yn golygu y byddwn yn cadw 3 chopi o'n data yn gyfan gwbl, gan storio 2 gopi ar ddyfeisiau gwahanol (ar gyfrifiadur ac ar yriant a rennir yr amgueddfa) a storio 1 copi oddi ar y safle (gyriant caled ar wahân mewn storfa ddiogel).

### Cyhoeddi ac ymgysylltu

Bydd y delweddau digidol yn cael eu cyhoeddi ar wefan casgliadau ar-lein yr amgueddfa, Wikimedia Commons a GitHub i sicrhau bod yr amrediad ehangaf o ddefnyddwyr lleol a byd-eang yn gallu cael atynt a'u mwynhau. Byddwn yn hysbysebu'r prosiect trwy dudalen Meta-Wiki, sianeli'r cyfryngau cymdeithasol a datganiadau i'r wasg.

### Cyllideb

| | |
|---|---|
| Daw o dan gyllid arall | Staff a recriwtio |
| Gofyn i Wikimedia UK | Gwasanaethau trwy gontract allanol |
| Am 2 weithdy | Hyfforddiant |
| Am 2 weithdy | Teithio a threuliau |
| Daw o dan yr amgueddfa | Costau digwyddiad |
| Daw o dan yr amgueddfa | Cyhoeddusrwydd a hyrwyddo |
| Daw o dan yr amgueddfa | Offer a meddalwedd |
| Ffioedd cynnal blynyddol | Tanysgrifiadau storio data a cwmwl a |
| Gofyn i The GLAM-E Lab | Costau gwefan a chynnal a chadw parhaus |
| Daw o dan yr amgueddfa | Cyfraniadau arian |
| O'r amgueddfa, fel yr uchod | Cyfraniadau nad ydynt yn arian |
| 10% o'r gyllideb gyfan | Costau eraill a cyllid wrth gefn |

### Anghenion

- Cymeradwyaeth gan ein corff llywodraethu ar gyfer y polisi mynediad agored cyn gwneud cais am gyllid
- Hyfforddiant ar blatfformau Wikimedia i staff yr amgueddfa a gwirfoddolwyr
- Gyriannau caled, storio tymor hir
- Caffael meddalwedd rheoli asedau digidol i wella rhyngwyneb ein casgliadau
- Gofyn am ddyfynbrisiau gan Wikimedia UK ar gyfer costau gwasanaethau trwy gontract allanol a hyfforddiant
- Gofyn i The GLAM-E Lab am eu cyfraniad arian at y prosiect

### Cyllid

Bydd y cyllid yn cefnogi costau digideiddio newydd, cysylltiad Wikimedia UK, y digwyddiadau a chyfraniadau gwirfoddolwyr, a gwaith parhaus ar gyhoeddiadau mynediad agored ar Wikimedia Commons. Gweler y nodiadau uchod o dan y gyllideb a chael costau terfynol gan ein partneriaid a llythyron o gefnogaeth. Mae ein cynlluniau i ddefnyddio CC0 a Wikimedia Commons yn gydnaws â gofyniad trwyddedu agored y cyllidwr

*'Cynlluniwr y Prosiect Digideiddio' (2023) gan Mathilde Pavis, Andrea Wallace a Sarah Saunders ar gyfer Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, CC BY 4.0.*

# Enghraifft B. *Digitising our local heritage*, Typical Community Archive

**Dalen 1. Ble ydym ni nawr?**

Heritage Fund | glam-e lab

## Syniad

Mae gennym gasgliad o ddelweddau hanesyddol o leoliadau yn yr ardal sydd wedi'i ddigideiddio yn rhannol. Rydym am wella ein gwefan a threfnu bod y deunydd yn hygyrch i gynulleidfa ehangach ar-lein. Y nod yw cynyddu diddordeb yn yr archif gan bobl ein hardal, yn enwedig pobl ifancach ac unigolion a chymunedau sy'n cael eu tangynrychioli. Y nod yw meithrin ymdeimlad o gymuned a dealltwriaeth o'n hanes rhyngddiwylliannol cyffredin yn y dref. Rydym wedi edrych ar amrywiaeth o wefannau cymunedol eraill ac wedi nodi'r rhai rydym yn eu hoffi, ac ymchwilio i gyflenwyr eu meddalwedd.

## Prosiect

Rydym am ddigideiddio'r delweddau a chreu catalog ar-lein. Bydd dolenni o'r delweddau i fap o leoliadau yn yr ardal. Rydym am annog pobl i lanlwytho sylwadau am y lleoliadau a'u hanes personol o'r ardal, ac anfon eu delweddau a'u sylwadau eu hunain atom i'w lanlwytho.

## Deunyddiau

Mae gennym nifer o ddelweddau gan bobl yn y gymuned, sy'n cael eu storio ar hyn o bryd yng nghartref arweinydd y prosiect, neu yng nghartrefi pobl. Bydd angen i ni gynnal archwiliad i restru'r deunyddiau sydd gennym a nodi pa rai sydd o dan hawlfraint a phryd y mae angen ceisio caniatâd. Hefyd, mae angen i ni drefnu lle i storio eitemau copi caled at y dyfodol (printiau, arteffactau, tapiau fideo).

## Sgiliau

Mae angen help arbenigwr arnom gyda:

rheoli'r prosiect digideiddio, offer technegol a meddalwedd, catalogio a mewnbynnu data, dewis y platfform ar gyfer mynediad dros y we.

Mae gennym sgiliau ymgysylltu â'r cyhoedd a chyhoeddusrwydd, a hanes lleol.

Rheoli'r prosiect
Technegol (offer)
Technegol (meddalwedd)
Catalogio
Mewnbynnu a rheoli data
Archifo
Gwefan
Platfform cyhoeddi
Cyhoeddusrwydd ac ymgysylltu
Sgiliau eraill

## Tîm

Mae arweinydd y prosiect yn hanesydd lleol. Mae grŵp o wirfoddolwyr wedi'i gynnull i helpu gyda'r prosiect hwn. Mae gan un o'r grŵp sgiliau ffotograffiaeth felly mae'n bosibl y gall arwain ar ddigideiddio.

## Cynulleidfaoedd a defnyddwyr

Cymunedau lleol
Ysgolion
Pobl hŷn ag atgofion am yr ardal
Ymchwilwyr
Y cyfryngau

## Cyllid presennol

Dim. Bwriadwn wneud cais i Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

*'Cynlluniwr y Prosiect Digideiddio' (2023) gan Mathilde Pavis, Andrea Wallace a Sarah Saunders ar gyfer Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, CC BY 4.0.*

# Enghraifft B. *Digitising our local heritage*, Typical Community Archive

## Dalen 2. Beth mae ei angen arnom?

### Caniatâd

Byddwn yn rhannu'r delweddau yn ôl yr hawliau ynddynt a'n gallu i fodloni'r gofyniad trwyddedu agored. Ar gyfer delweddau o unigolion byw, byddwn yn ceisio eithriad yn gysylltiedig â'r gofyniad trwyddedu agored. Lle y bo'n bosibl, byddwn yn sicrhau bod y bobl sy'n cael eu portreadu yn cytuno hefyd. Os yw hawlfraint delweddau wedi dod i ben, byddwn yn defnyddio CC0. Os oes hawlfraint ar ddelweddau, byddwn yn ceisio caniatâd ac yn annog y defnydd o CC BY 4.0 lle y bo'n briodol (e.e. delweddau o adeiladau a thirweddau heb bobl ynddynt). Os nad yw statws hawlfraint delweddau yn hysbys, byddwn yn defnyddio label Copyright Undetermined ar gyfer unrhyw ddarnau gwaith amddifad. Mae angen i ni greu cytundebau adneuo a ffurflenni cydsynio ffurfiol, ynghyd â pholisi ar dynnu delweddau i lawr os caiff cydsyniad ei dynnu'n ôl neu os bydd data personol ynghlwminvolved.

### Digideiddio

Byddwn yn cael help arbenigol i ddewis sganiwr a sefydlu llif gwaith digideiddio.

### Amserlen

Rydym wedi creu amserlen sy'n anelu at lansio ein safle newydd bron i flwyddyn ar ôl dechrau'r prosiect.

Dyma'r camau: Archwiliad llawn o'r deunydd; Creu cyllideb; Caffael meddalwedd; Gosod, hyfforddi a phrofi; Caniatâd a chytundebau; Gweithdai gydag arbenigwr ar Sganio, Trafod ffeiliau digidol, Metadata a Chatalogio, Llif Gwaith, Hawlfraint; Storfa ar gyfer copïau caled.

### Rheoli data

Byddwn yn adolygu'r data rydym ni'n ei ddal ac yn edrych ar y goblygiadau i ddiogelu data.

### Cyhoeddi ac ymgysylltu

Byddwn yn cysylltu â rhai cyflenwyr meddalwedd ar gyfer archifau ar y we, gan ddefnyddio'r meini prawf hyn: Wedi gweithio yn y sector archifau cymunedol; Ymdrin â delweddau, fideo a sain; Cynhyrchu dyluniad modern deniadol a hygyrch; Hawdd i wirfoddolwyr ei gweinyddu; Rhyngwyneb hwylus i ddefnyddwyr; Blychau arddangos ar gyfer orielau; Adran cymryd rhan; Dolenni ar fap lleoliad i gynnwys; Casgliad a metadata hawdd eu hallforio; Cymorth defnyddiol ac ymatebol; Costau sefydlu a chostau parhaus fforddiadwy; Hyfforddiant fforddiadwy. Byddwn yn cynnal cyfarfodydd er mwyn briffio a hysbysu darpar wirfoddolwyr y prosiect. Adeg lansio, byddwn yn cynnal lansiad cyhoeddus i'r gymuned leol.

### Cyllideb

*Mae ein cyllideb yn cynnwys:*

| | |
|---|---|
| ______ | Enw parth |
| ______ | Cyfrif Zoom |
| ______ | Gwefan Blwyddyn 1 |
| ______ | Gwefan Blynyddoedd 2 a 3 |
| ______ | Sganio |
| ______ | Gyriannau cadw wrth gefn a chof bach USB |
| ______ | Dyluniad brandio |
| ______ | Inc peiriant argraffu a phapur ysgrifennu |
| ______ | Blychau storio ar gyfer copïau caled |
| ______ | Teithio |
| ______ | Digwyddiad lansio |
| ______ | Manion |
| ______ | *Angen hefyd:* Help arbenigol |

### Anghenion

Mae angen arweiniad ar sefydlu a rhedeg y prosiect arnom gan rywun sydd â phrofiad o archifau cymunedol ac a all ein helpu i asesu'r nwyddau a'r platfformau amrywiol sydd ar y farchnad. Byddwn yn gofyn i'r amgueddfa leol os yw'n bosibl iddynt fod yn storfa barhaol ar gyfer yr eitemau copi caled a sganiom.

### Cyllid

Cais i Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol am gyllid ar gyfer eitemau'r gyllideb uchod, gan gynnwys nifer o ddiwrnodau o amser ymgynghori.

*'Cynlluniwr y Prosiect Digideiddio' (2023) gan Mathilde Pavis, Andrea Wallace a Sarah Saunders ar gyfer Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, CC BY 4.0.*

Heritage Fund | glam-e lab

## Cynhyrchwyd y canllaw hwn gan Mathilde Pavis a Andrea Wallace gyda Sarah Saunders ar gyfer Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol

Priodolwch fel a ganlyn:

'Cynlluniwr Prosiect Digideiddio' (2023) gan Mathilde Pavis, Andrea Wallace a Sarah Saunders, gyda chefnogaeth Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, CC BY 4.0.

Dyluniwyd gan Andrea Wallace

Cysylltwch â'r awduron trwy e-bost:

m.pavis@reading.ac.uk
a.wallace@exeter.ac.uk
sarah@electriclane.co.uk

Ac eithrio lle y nodir a heblaw am logos cwmnïau a sefydliadau, rhennir y gwaith hwn o dan drwydded Creative Commons Licence Attribution 4.0 (CC-BY 4.0) Licence.

CC BY

Diolch i adolygwyr y canllaw hwn: Francesca Farmer, Heather Forbes, Josie Fraser, Douglas McCarthy and Michael Weinberg.

Diolch i sefydliadau diwylliannol y DU a sefydliadau sydd wedi cyhoeddi eu deunyddiau gan ddefnyddio trwydded CC BY-SA, CC BY ac offeryn CC0. Roedd y delweddau hyn yn hanfodol i ddangos y canllaw hwn gydag enghreifftiau ymarferol o sut i rannu deunyddiau drwy drwyddedau ac offer agored.

**Credydau delwedd**

**Cover.** A painted hand-made wooden model of "Noah's Ark", Herbert Art Gallery and Museum, CC BY-SA 3.0.

**Page 1.** The Annunciation, Sir Edward Burne-Jones, Birmingham Museums Trust, CC0 1.0 (image in reverse).

The Agony in the Garden, Bacchiacca (1494–1557), York Art Gallery, York Museums Trust, Public domain.

L'Amour Vainqueur (Cupid Victorious), William-Adolphe Bouguereau (1825–1905) (after), York Art Gallery, Public domain.

**Page 3.** Detail 1, Detail 2, Detail 3, Cartoons for "Christ in Majesty" in All Saints Church, Margaret Street, London (incomplete), William Dyce (1806-1864), Aberdeen Archives, Galleries & Museums, CC0 1.0.

**Page 4.** Suffragette Calendar, Herbert Art Gallery and Museum, Coventry, CC BY-SA 3.0.

Jenny Cameron (c. 1700-1790), Adventuress, supporter of Charles Edward Stuart, National Library of Scotland, Public Domain.

Necklace, Victoria and Albert Museum, CC BY 4.0.

**Page 5.** Portrait of a Woman with Flowers in Her Hair, unknown artist, Llyfrgell Genedlaethol Cymru / The National Library of Wales, Public Domain Mark.

Portrait from 'The History and Antiquities of Boston' (Second edition), The British Library, Public Domain Mark.

**Page 6.** Pepsis heros (Fabricius, 1798), The Trustees of the Natural History Museum, London, CC BY 4.0.

The housemartin flea, Ceratophyllus Ceratophyllus hirundinis (Curtis, 1826), Olha Schedrina / The Trustees of the Natural History Museum, CC BY 4.0.

**Page 7.** Pin Head, artwork of the brain, Sarah Grice, Wellcome Collection, CC BY 4.0.

Purple medicine jar, Wellcome Collection, CC BY 4.0.